**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, CYFATHREBU, Y GYMRAEG, CHWARAEON, A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL AC I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth cyn imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022. Roedd y gwahoddiad yn gofyn am wybodaeth am bedwar cwestiwn penodol, ac mae'r ymateb isod yn canolbwyntio ar bob cwestiwn yn ei dro.

**Cyflwyniad**

Ddiwedd mis Gorffennaf eleni, cymeradwyais Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r Cynlluniau statudol hyn yn nodi sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwella eu dulliau o gynllunio y Gymraeg mewn addysg yn eu hardaloedd dros y 10 mlynedd nesaf yn seiliedig ar darged sy'n cyd-fynd â'n strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Mae cymeradwyo'r CSCA newydd yn cynrychioli'r cam nesaf i awdurdodau lleol wrth iddynt ddechrau gweithredu eu hymrwymiadau CSCA o fis Medi eleni. Mae'r degawd nesaf yn gyfnod tyngedfennol o ran cyrraedd ein targedau *Cymraeg 2050*, ac ni ddylid tanbrisio yr angen i'r Cynlluniau lwyddo.

1. **A yw fframwaith ddeddfwriaethol presennol Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) wedi gwella ers yr argymhellion a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2015 yn adroddiad 'Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg' gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Senedd? Sut mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei dull o fonitro a chymeradwyo CSCA yn dilyn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad?**

Nid oes amheuaeth bod y fframwaith statudol ar gyfer y CSCA wedi gwella ers yr ymchwiliad blaenorol yn 2015. Gwnaeth yr ymchwiliad 17 o argymhellion, llawer ohonynt yn ymwneud â'r angen am well cysondeb â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru; gwell gwaith partneriaeth o fewn adrannau Llywodraeth Cymru ac yn allanol; eglurder ynghylch disgwyliadau o ran targedau; eglurder ynghylch categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwell prosesau monitro ac asesu. Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r materion hyn a materion eraill hefyd, fel bod cynllunio y Gymraeg mewn addysg o fewn fframwaith CSCA awdurdodau lleol mor uchelgeisiol a chadarn ag y gall fod.

Adeg yr ymchwiliad, roedd awdurdodau lleol yn gweithredu eu CSCA cyntaf (2014-2017) ac roedd y pwyllgor yn cydnabod bod angen amser ar y cynlluniau i wreiddio. Er hynny, yn 2016 comisiynwyd adolygiad brys mewn ymateb i'r diffyg cyfeiriad ac uchelgais ymysg awdurdodau lleol o ran eu darpariaeth addysg Gymraeg. Un o argymhellion yr adolygiad oedd yr angen i archwilio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i

gynllunio y Gymraeg mewn addysg. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori annibynnol[1] ar gyfer y CSCA rhwng mis Mai 2018 a mis Mawrth 2019 er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion. Arweiniodd hyn at adolygu *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*[2] ("Rheoliadau 2013") a'u disodli gyda rheoliadau newydd , sef Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Daeth y rhain i rym ar 1 Ionawr 2020[3] ac roeddent yn cynnwys:

- Dileu'r ddyletswydd i gynnal asesiadau o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni. Yn lle'r ddyletswydd hon, cyflwynwyd targedau sy'n benodol i bob awdurdod lleol, wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu ein disgwyliad yn *Cymraeg 2050* i gynyddu'n sylweddol y ganran o ddysgwyr sy'n dysgu'r Gymraeg yn llwyddiannus
- Ymestyn hyd y CSCA o'r cylch cynllunio 3 blynedd blaenorol i 10 mlynedd er mwy annog gwell cynllunio strategol sy'n cyd-fynd nid yn unig â *Cymraeg 2050*, ond hefyd â rhaglenni cyllido Llywodraeth Cymru (e.e. rhaglenni cyllido cyfalaf, Dechrau'n Deg) a hefyd agendâu diwygio fel y Cwricwlwm i Gymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cryfhau'r cyswllt rhwng gofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'u hasesiad o ddigonolrwydd gofal plant wrth gynllunio llefydd ysgol o 3 oed ymlaen.

Gwyddom fod llwyddiant y CSCA yn dibynnu ar lawer o ffactorau, ac mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn un ohonynt. Gwnaethom gydnabod hyn yn Rheoliadau 2019 gyda gofyniad i awdurdodau lleol nodi sut roeddent yn gweithio mewn partneriaeth â'u Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg er mwyn paratoi Cynllun yr awdurdod a goruchwylio'r gwaith o weithredu a gwerthuso'r Cynllun yn y dyfodol. Calonogol oedd clywed am y trafodaethau ymgysylltu a chynllunio a gynhaliwyd, ar sawl lefel, o fewn y fforymau hyn wrth baratoi'r CSCA. Croesewir hefyd yr ymrwymiadau a wnaed yn y mwyafrif helaeth o Gynlluniau i sefydlu is-grwpiau, megis hyrwyddo, cefnogaeth i rieni, blynyddoedd cynnar a chynllunio'r gweithlu, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau. Roedd ein canllawiau statudol diwygiedig yn cynnwys adran bwrpasol yn tynnu sylw at rôl sefydliadau partner (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) wrth gyflwyno'r CSCA, ynghyd â chyngor ar hyrwyddo'r Gymraeg.

---

[1] gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg.pdf (llyw.cymru)

[2] Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo gan ddangos sut y byddant yn gwella'r broses cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg.

[3] Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, diwygiwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020") i rym ar 1 Rhagfyr 2020 gan wneud newidiadau i ddyddiad dechrau y cylch nesaf o Gynlluniau Strategol – o 1 Medi 2021 i flwyddyn yn ddiweddarach (i fis Medi 2022).

Mae'r gofynion wedi'u cryfhau o ran sut mae awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr am argaeledd a'r math o ddarpariaeth addysg Gymraeg a gynigir. Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, darparwyd cyllid ychwanegol i Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) i greu gwefan a fforwm cefnogi i rieni, i'w cyfeirio a rhoi cymorth ac arweiniad iddynt.

I gefnogi swyddogion awdurdodau lleol i baratoi eu CSCA, gwnaethom hwyluso rhaglen o sesiynau rhithiol yn ystod 2021-22. Cynhaliwyd 10 sesiwn gyda 270 yn mynychu. Er mwyn cefnogi defnydd cyson o ddata, gwnaethom hefyd baratoi pecyn data i awdurdodau lleol gydag ystadegau addysg gan gynnwys data y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a data y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY). Roedd modd i awdurdodau lleol gael mynediad at ddata ar gyfer eu hardal eu hunain, ardaloedd awdurdodau cyfagos yn ogystal â'r trosolwg cenedlaethol. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

Roedd pob Cynllun drafft a ddaeth i law i'w hasesu ym mis Ionawr 2022 yn cynnwys ymrwymiad clir i'r targed 10 mlynedd a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig cydnabod hyn. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ("Deddf 2013") yn gwneud darpariaethau i awdurdod lleol baratoi CSCA sy'n cynnwys targedau'r awdurdod lleol ei hun ar sut y mae'n bwriadu gwella cynllunio a safon addysg Gymraeg yn ei ardal. Dyma'r Cynlluniau strategol cyntaf ers 2014 sy'n seiliedig ar darged a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Aseswyd y Cynlluniau gyda mewnbwn o bob rhan o'r Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg a rhoddwyd adborth i bob awdurdod lleol ar feysydd y gellid eu cryfhau. Roedd angen mwy o fewnbwn ar rai Cynlluniau drafft nag eraill, ond roedd ymateb yr awdurdodau lleol i'r adborth yn gadarnhaol.

Rydym wedi gosod disgwyliadau clir i awdurdodau lleol gyrraedd eu targedau 10 mlynedd. Mae disgwyl i bob awdurdod lleol gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer pum mlynedd gyntaf y Cynllun, a fydd yn cael ei fonitro yn flynyddol ar ffurf adroddiad adolygu. Os na wneir cynnydd priodol, mae darpariaethau newydd yn y rheoliadau yn golygu y gellir adolygu'r CSCA a'i ddisodli gan Gynllun newydd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod 10 mlynedd, sy'n ddull mwy ymatebol o fonitro ac adolygu Cynllun.

Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar sut mae'r CSCA yn cael eu hystyried ar draws meysydd polisi y Llywodraeth, yn enwedig o ran ein rhaglen cyllido cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Wrth gymeradwyo'r Cynlluniau Strategol, nodwyd yn glir y dylid asesu cynigion trefniadaeth ysgol ehangach i sicrhau eu bod yn gyson â nodau ac amcanion y CSCA. Mae canllawiau yn ymwneud ag hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newid hwn. At hynny, cymeradwyais yn ddiweddar dull newydd o fuddsoddi drwy'r Rhaglen ar gyfer y dyfodol sy'n caniatáu i awdurdodau lleol symud eu cynlluniau cyfalaf yn eu blaen mewn dull mwy hyblyg. Bydd hi'n

ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno cynllun buddsoddi 9 mlynedd erbyn mis Mawrth 2024. Bydd y cynlluniau buddsoddi hyn yn cael eu hasesu yn erbyn y CSCA a gymeradwywyd i sicrhau bod ganddynt y capasiti sy’n ofynnol i gyrraedd y targedau.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn symud i'r cyfeiriad cywir—yn cynyddu mynediad a chyfleoedd i bob dysgwr ddysgu Cymraeg. Mae pwyslais amlwg ar gynyddu nifer y lleoliadau ysgol gynradd ledled Cymru, gydag ymrwymiadau i sefydlu 23 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac ehangu o leiaf 25 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r Cynlluniau yn dangos y bydd canran uchel o'r datblygiadau hyn yn cael eu gwireddu yn ystod 5 mlynedd gyntaf y CSCA, ac yn aml gyda chefnogaeth cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae sawl awdurdod wedi gwneud ymrwymiadau clir yn eu CSCA i symud eu hysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwy iaith ar hyd continwwm ieithyddol drwy newid categori iaith ysgolion. Nid ar chwarae bach y mae’r ymrwymiadau hyn. Mae'r rhain i gyd yn ddatblygiadau pwysig a chyffrous—ond nid heb eu heriau.

**2. I ba raddau y mae’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a’r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - Cymraeg 2050?**

Mae cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o brif nodau *Cymraeg 2050*. Mae data diweddaraf CYBLD (2021) a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst, yn dangos cynnydd canrannol bach mewn dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg[4] i bron i 24% yn 2021/22, gyda’r dilyniant o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 2 yn uwch eleni. Er y gwelwyd gostyngiad canrannol bach yn y dysgwyr Dosbarth Derbyn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr un cyfnod, mae’n bwysig nodi nad oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y plant sy’n astudio’r Gymraeg sydd yn iau na phum mlwydd oed. Mae hyn yn golygu nad yw’r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer plant Dosbarth Derbyn. Byddwn yn parhau i fonitro’r data yn ofalus i asesu effaith y pandemig COVID-19 ar ddewisiadau rhieni/gofalwyr mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae gwaith Mudiad Meithrin yn y maes hwn yn hanfodol i allu pontio’n ddidrafferth o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth ysgolion a gynhelir. Maent ar drywydd i gyrraedd y targed o sefydlu 150 o ddarpariaethau newydd erbyn 2026. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod gwella lefelau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfrifoldeb i’r sector nas cynhelir yn ei gyfanrwydd, a dyna pam rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ehangu darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor y Senedd hon. Ym mis Medi, cyhoeddwyd buddsoddiad o £3.8 miliwn i gefnogi mwy o ddarparwyr gofal plant i wella eu darpariaeth Gymraeg.

[4] 23.4% (7,900 o ddysgwyr) yn 2020/21 i 23.9% (8,010 o ddysgwyr) yn 2021/22 (data CYBLD)

Mae Rheoliadau 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod targed 10 mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig ym mhlant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar y targedau addysg[5] a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050* ac maent wedi'u cynnwys yn y Canllawiau statudol ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.

Roedd y symudiad i gynllunio yn ôl targedau yn newid sylweddol. Gosododd yn glir ddisgwyliad Gweinidogion Cymru ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer twf mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â thargedau *Cymraeg 2050.* Roedd y fethodoleg ar gyfer pennu'r targedau yn cynnwys grwpio awdurdodau lleol yn ôl poblogaeth, canran o siaradwyr Cymraeg a'r model presennol ar gyfer darparu addysg. Gosodwyd targedau gan ddefnyddio ystod is ac uwch, ynghyd â grwpio ardaloedd yn ôl eu darpariaeth bresennol, gan gydnabod y byddai man cychwyn pob awdurdod lleol yn wahanol ac y byddai'r llwybr i gyflawni'r targedau hynny'n amrywio.

Ers 2018, mae dros £76 miliwn wedi'i fuddsoddi drwy grantiau cyfalaf cyfrwng Cymraeg penodol yn seiliedig ar gyfradd cyllido o 100%, gan greu pan fydd hyn wedi'i wireddu, dros 3,700 o leoedd gofal plant a lleoedd ysgol ychwanegol, a 285 o leoedd mewn canolfannau neu unedau trochi hwyr ychwanegol. Yn fwy diweddar, cyhoeddais £7m ychwanegol i gefnogi datblygiadau cyfalaf y CSCA.

Rwyf eisoes wedi buddsoddi £2.2 miliwn i gefnogi trochi hwyr gyda £6.6 miliwn yn ychwanegol wedi'i ymrwymo tan ddiwedd tymor y Senedd hon i gefnogi'r ddarpariaeth trochi hwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cymeradwywyd ceisiadau gan bob awdurdod lleol dros yr haf ac mae'r prosiectau wedi bod ar waith ers mis Medi.

Ym mis Mai, cyhoeddais Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg, sy'n Gynllun 10 mlynedd i gyd-fynd â'r CSCA. Mae'r Cynllun Gweithlu hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd ochr yn ochr ag amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc neu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £1 miliwn arall eleni i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun, gan ddod â chyfanswm y gefnogaeth i'r Gymraeg mewn Addysg i oddeutu £9 miliwn, gyda chynlluniau i gynyddu'r cyllid dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym hefyd wedi estyn y ddarpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ar gael i'r gweithlu addysg. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi porth ar ei gwefan sy'n ei gwneud yn haws i weithwyr addysg proffesiynol weld pa gyrsiau pwrpasol sydd ar gael iddynt i ddysgu Cymraeg, ac i wella eu sgiliau yn y Gymraeg. Gall athrawon hefyd gael mynediad at gyrsiau ar ddarpariaeth gymunedol brif ffrwd y Ganolfan Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

[5] Mae cerrig milltir addysg *Cymraeg 2050* yn cynnwys cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant erbyn 2031 (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn), ac yna i 40 y cant erbyn 2050 (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn).

Rydym hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bawb rhwng 16-25 oed ers mis Medi a allai hefyd wella sgiliau Cymraeg darpar weithwyr addysg proffesiynol.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau sy'n ymwneud â recriwtio, yn enwedig yn ein hysgolion uwchradd. Mae rhaglenni fel y *Cynllun Pontio* i gefnogi athrawon cynradd i symud i addysgu yn yr uwchradd, a'r cynllun cymhelliant *Iaith Athrawon Yfory* yn allweddol. Rwyf hefyd wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y cynllun *e-sgol* i £600,000 er mwyn ymestyn y rhaglen e-ddysgu i bob rhan o Gymru erbyn 2023. Mae angen amlwg am gynllunio mwy deallus (seiliedig ar wybodaeth) yn y maes hwn. Mae CSCA pob awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad i weithio ar y cyd â ni ac eraill i wneud gwell defnydd o'r data ar y gweithlu sydd ar gael. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn adroddiadau adolygu blynyddol y CSCA. Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud i sicrhau llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r CSCA yn ffordd o hwyluso hynny. Fodd bynnag, ni allant fod yn ateb i bopeth.

Mae Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* (2021-2026) yn nodi ein targed i gyrraedd 26% o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026, gan gynyddu i 30% erbyn 2031. Os bydd pob awdurdod yn cyrraedd ei amrediad targed 10 mlynedd isaf, byddwn yn cyrraedd ein carreg filltir yn *Cymraeg 2050* o 30% o ddysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31. Rhaid inni adeiladu ar fomentwm y CSCA a'r camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd i gefnogi ein huchelgais ar gyfer ein hiaith—mae gennym yr arbenigedd a'r ewyllys i lwyddo, ac rwy'n hyderus y byddwn yn cyrraedd ein targedau.

**3. Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd?**

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddais ganllawiau anstatudol ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dilyn adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol yn 2019. Ysgogodd hynny lawer o awdurdodau lleol ac ysgolion i ddechrau adolygu eu trefniadau lleol—rhywbeth sydd heb ddigwydd ar y fath raddfa ers 2007.
Cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig oedd y cam cyntaf yn unig. Megis dechrau ydym ni ar ein taith a bydd y newid o un system i'r llall yn cymryd amser. Mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod y bydd hi'n daith wahanol i bob awdurdod lleol.

Ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, mae trafodaethau wedi parhau gydag ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae wyth awdurdod lleol ar draws Cymru wedi ymrwymo yn eu CSCA i newid categori iaith un ysgol neu fwy i gyfrwng Cymraeg dros y 10 mlynedd nesaf. Ers mis Medi, mae fy swyddogion wedi cyfarfod yn unigol gyda'r siroedd hynny i ddeall yn well sut maent yn mynd ati i gyflwyno'r trefniadau categoreiddio newydd. Mae pob un wedi, neu wrthi, yn mapio'r ddarpariaeth yn eu hysgolion a

nodi ysgolion sydd â'r potensial i symud i gategori gwahanol. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u hamserlenni i archwilio beth yn fwy y gallwn ni fel Llywodraeth ei wneud i hwyluso'r trafodaethau ar lefel ysgol, sirol neu genedlaethol mewn perthynas â chynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg. Yn achos awdurdodau lleol sydd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg yn unig ar hyn o bryd, mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch sut i gyflwyno rhagor o Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol, yn enwedig yn eu hysgolion a'u lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Cyhoeddais ym mis Hydref Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Mae partneriaethau a chonsortia addysgol rhanbarthol yn cydweithio i ddatblygu rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol a fydd yn cefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion yn unol â'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar ddarparu cefnogaeth i ysgolion i ddefnyddio'r fframwaith yn effeithiol i drefnu, cynllunio ac adolygu'r Gymraeg yn eu cwricwla.

Rhaid i bob ysgol gofnodi eu categori iaith yn flynyddol o fewn casgliad data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Rydym wedi bod yn gwneud paratoadau i ddiweddaru'r setiau data i adlewyrchu'r categorïau newydd. Er ei bod yn broses hir, mae'r amser hwn yn cael ei dreulio'n ddoeth gan ysgolion ac awdurdodau i ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd. Mae disgwyl i ni drosglwyddo'n ffurfiol i'r trefniadau categoreiddio iaith newydd erbyn mis Ionawr 2024, unwaith y bydd y gwaith o ddiweddaru CYBLD wedi'i gwblhau. Mae pob awdurdod lleol yn gweithio tuag at y dyddiad hwn.

4. **Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?**

Ceir ymrwymiad yn ein *Rhaglen Lywodraethu* i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae hyn hefyd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Diben y Bil fydd cryfhau a chynyddu darpariaeth addysg Gymraeg ledled Cymru i gyrraedd ein targedau *Cymraeg 2050*.

Rwy'n awyddus i edrych i weld pa gamau eraill y gallwn eu cymryd i sicrhau bod mynediad at addysg Gymraeg yn fwy hygyrch a theg. Mae dysgwyr a theuluoedd yn parhau i golli cyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg—ac o ganlyniad y cyfle gorau i fod yn ddinasyddion dwyieithog hyderus. Rwyf hefyd yn awyddus i archwilio sut y gallwn sicrhau canlyniadau ieithyddol gwell i ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Saesneg.

Rwy'n croesawu sylw'r Pwyllgorau ar y materion hyn. Rydym wedi mynd cyn belled ag y gallwn o fewn fframwaith presennol y CSCA, a byddwn yn edrych ar unrhyw dystiolaeth ac argymhellion a wneir o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn wrth ddatblygu cynigion y gellid eu cynnwys mewn Bil Addysg Gymraeg.

Wrth gymeradwyo'r CSCA, ymrwymais i gwrdd ag Arweinydd a Chyfarwyddwr Addysg pob awdurdod lleol i drafod eu cynlluniau. Mae nifer o’r cyfarfodydd hynny eisoes wedi digwydd. Wrth eu cyfarfod, rwyf wedi pwysleisio'r hyn rwyf wedi'i ddweud ar lafar ac yn ysgrifenedig dro ar ôl tro: mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, felly hefyd y cyfrifoldeb am ei dyfodol. Dyna pam fod angen i bob un ohonom – yn Llywodraeth Cymru, a phob awdurdod lleol ac ysgol – weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pob dysgwr ym mhob rhan o Gymru yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg yn llwyddiannus, a'i defnyddio yn eu bywydau bob dydd.